Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfarfod Bwrdd: 16 Gorffennaf 2021** **Eitem ar yr agenda [3]**

**Teitl y Papur:** Bwrdd Cysgodol

**Diben y papur:** Nodi'r cynigion ar gyfer Bwrdd Cysgodol newydd

**Camau sy'n ofynnol gan y Bwrdd:** Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y canlynol yn

Ymwneud â'r Bwrdd Cysgodol:

- Dull recriwtio (paragraff 2.1)
- Ymrwymiad amser (paragraff 2.2)
- Aelodaeth arfaethedig (paragraff 2.3)
- Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn Ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd Cysgodol hefyd.
- Rhoi amser yng nghyfarfodydd y Bwrdd i ganiatáu i farn y Bwrdd Cysgodol gael ei hystyried ym mhob eitem.
- Gwerthusiad er mwyn dysgu gwersi ar gyfer fforymau gwneud penderfyniadau eraill.

**Y swyddog sy'n cyflwyno'r papur:** Andrew Jeffreys

**Paratowyd / cliriwyd y papur gan:** Jo Glenn. Cliriwyd gan Andrew Jeffreys a Natalie Pearson

**Ymgysylltiad/ Safbwynt Undebau Llafur:** Mae'r Undebau Llafur wedi cymryd rhan yn ystod y trafodaethau yn y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant ac maent wedi bod yn gefnogol.

**Dyddiad cyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth:** 8 Gorffennaf 2021.

## 1. Cefndir

1.1 Cafwyd trafodaethau cychwynnol ar sut y gallai Bwrdd Cysgodol weithio yn y Bwrdd ar 26 Mawrth. Ers hynny, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gydag aelodau presennol a blaenorol y Bwrdd Cysgodol ac yn y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r cynigion wedi'u rhannu â'r Pwyllgor Gweithredol hefyd.

1.2 Ceir ymrwymiad yng Nghynllun Cyflawni Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu i 'pilot a shadow Board with membership from under-represented groups with the intention of learning lessons on how to improve the diversity of our decision making fora'. Mae'n nodi mai nod y Bwrdd Cysgodol yw gwella amrywiaeth gwneud penderfyniadau yn hytrach na darparu dysgu a datblygiad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

1.3 Bu gan y Bwrdd aelodau cysgodol am nifer o flynyddoedd, pobl sydd naill ai'n bartneriaid rhannu swydd neu'n unigolion, sy'n mynychu cyfarfodydd llawn y Bwrdd. Mae hyn wedi rhoi manteision i'r rhai sydd wedi cymryd rhan, gan gynnwys gweld sut mae pobl ar lefel uwch yn gweithredu, rhwydweithio (ar gyfer cyfarfodydd mewn person), codi eu proffil, yn ogystal â datblygiad cyffredinol. Bu amrywiaeth y rhai a ddewiswyd i'r rôl yn gyfyngedig. Ni fyddai parhau gydag aelodau cysgodol yn ffordd effeithiol o gynyddu amrywiaeth y fforymau gwneud penderfyniadau. Bydd y cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Cysgodol yn nodi mai ei swyddogaeth yw ystyried papurau'r Bwrdd a darparu safbwyntiau amrywiol a fydd yn hysbysu ystyriaethau'r prif Fwrdd. Ei fwriad yw dyfnhau dealltwriaeth y Bwrdd o safbwyntiau amrywiol ac arwain at ddulliau gwell o wneud penderfyniadau a syniadau. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad aelodau o'r staff nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol.

## 2. Materion i'w hystyried

Dewis aelodau

2.1 Gofynnwyd i gyn aelodau'r Bwrdd Cysgodol gwblhau Mynegiant o Ddiddordeb a chawsant eu cyfweld gan Peter Kennedy a chyn aelod o'r Bwrdd Cysgodol. Wedyn, cafodd grŵp a roddwyd ar restr fer ei gyfweld gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Y bwriad oedd cael aelodau cysgodol yn eu swydd am 2 flynedd. Mae'r garfan bresennol wedi bod ar waith am ychydig dros ddwy flynedd. Y tro hwn, cynigir ein bod yn dilyn dull gwahanol. Bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gwblhau Mynegiant o Ddiddordeb ysgrifenedig neu gallent anfon fideo lle maent yn esbonio pam yr hoffent fod ar y Bwrdd Cysgodol, yr hyn y maent yn gobeithio'i ennill o'r profiad a pha sgiliau amrywiol y byddant yn eu cynnig iddo. Caiff y rhain eu didoli ac wedyn bydd panel staff amrywiol

yn cyfweld â'r bobl ar y rhestr fer.  Fel rhan o'r cais, gofynnir i'r ymgeiswyr pa grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (gweler paragraff 2.3) maent yn eu cynrychioli. Gallai recriwtio i'r Bwrdd Cysgodol o rwydweithiau yn unig gyfyngu ar y gronfa o bobl bosibl. Cytunir ar y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan aelodau'r Bwrdd Cysgodol.

Ymrwymiad amser

2.2 Mae hyn yn debygol o fod un diwrnod bob chwe wythnos gyda hanner diwrnod ychwanegol i'r Cadeirydd y bydd yn ofynnol iddo fynychu'r prif Fwrdd a'r Dirprwy Gadeirydd a fyddai'n mynychu'r Is-bwyllgor Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid. Gofynnir i'r ymgeiswyr i roi gwybod i'w rheolwr llinell ymlaen llaw a thrafod unrhyw faterion a allai godi yn sgil eu presenoldeb. Cyfnod y swydd ar gyfer aelodau Bwrdd Cysgodol newydd fydd dwy flynedd.

Aelodaeth

2.3 Bydd y Bwrdd Cysgodol yn cynnwys rhyw 12 o bobl a byddwn yn recriwtio pobl sy'n Fenywod, staff Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig, staff Anabl sy'n cynnwys pobl â namau corfforol, cyflyrau iechyd meddwl ac sy'n niwroamrywiol, staff LGBT, pobl sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn ddiweddar a phobl iau (o dan 30 oed). Ein nod fydd cael cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Bwrdd Cysgodol ond ni fydd hyn yn ein cyfyngu gan ein bod hefyd yn awyddus i annog ceisiadau gan bobl sy'n anneuaidd. Gall pobl o Gymorth Tîm i Radd 7 ymgeisio.  Ni fyddwn yn gosod cwotâu e.e. ni fyddwn yn pennu bod cyfran o aelodau'r Bwrdd yn anabl ond byddwn yn sicrhau y caiff pob grŵp ei gynrychioli. Byddem yn gwahodd Undebau Llafur i enwebu aelod Undebau Llafur o'r Bwrdd Cysgodol.

2.4 Bydd aelodau'r Bwrdd Cysgodol yn cael eu hannog i ddod â'u profiad uniongyrchol a'u barn i'r rôl ond byddem hefyd yn disgwyl iddynt gynrychioli barn pobl eraill. Byddwn yn annog ymgeiswyr llwyddiannus i weithio gyda'r rhwydweithiau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o bryderon a materion yn ymwneud â rhwydwaith.

2.5 Dim ond y Cadeirydd fydd yn mynychu'r Bwrdd yn rheolaidd ond gall wahodd un aelod arall os byddai o'r farn y byddai'n fuddiol cael aelod penodol o'r Bwrdd Cysgodol yn bresennol ar gyfer eitem i'w thrafod. Gallai'r Ysgrifennydd Parhaol ddewis mynychu'r Bwrdd Cysgodol i gael eu safbwyntiau cyn cyfarfod y Bwrdd.

Cyfarfodydd

2.6 Bydd y cylch gorchwyl yn nodi y bydd y Bwrdd Cysgodol yn cyfarfod bob 6 wythnos, a hynny bob bore dydd Mercher. Bydd papurau'n cael eu dosbarthu ar ddydd Gwener a bydd cofnodion yn cael eu cymryd o gyfarfod y Bwrdd Cysgodol a darperir ysgrifenyddiaeth gan swyddfa'r

Ysgrifennydd Parhaol. Bydd sylwadau ar ffurf pwyntiau bwled ar bob eitem er mwyn i'r Cadeirydd fynd â nhw i'r Bwrdd. Cynigir y bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cynnwys barn Cadeirydd y Bwrdd Cysgodol, ar ran y Bwrdd Cysgodol, ar bob eitem.

Hyfforddiant

2.7 Darperir hyfforddiant cyn cyfarfod cyntaf y Bwrdd Cysgodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfod â'r Ysgrifennydd Parhaol, hyfforddiant ar sut mae'r Bwrdd yn gweithio a'i berthynas â'r Pwyllgor Gweithredol a hyfforddiant ar gyllid y Cynulliad. Cynigir cyfeillio aelodau'r Bwrdd Cysgodol ag aelod o'r Bwrdd er mwyn datblygu perthynas fentora gydfuddiannol. Er na fydd hyn yn digwydd yn ormodol, y nod fydd cyfnewid barn ar bapurau'r Bwrdd er mwyn gwella dealltwriaeth y ddau barti o farnau amrywiol, er mwyn i'r aelod o'r Bwrdd ddeall safbwyntiau profiad uniongyrchol yr aelod Bwrdd Cysgodol ac er mwyn i'r aelod o'r Bwrdd fentora neu hyfforddi'r aelod Bwrdd Cysgodol.

Ymwneud y Trydydd Sector

2.8 Gwnaethom hefyd ystyried opsiwn lle, yn ogystal â'r cynigion cynharach, rydym yn gwahodd ceisiadau gan sefydliadau'r trydydd sector am 4 sedd ar y Bwrdd Cysgodol, dau i bobl anabl a dau i bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gyfateb i rolau cyfarwyddwyr anweithredol ar y Bwrdd. Byddai hyn yn bodloni'r ymrwymiad yn y Strategaeth i helpu i ddatblygu cynllun. Ceir ymrwymiad hefyd i'r canlynol: 'Byddwn yn cyflwyno rolau anweithredol ar ein byrddau arwain a phenderfynu a fydd yn agored i staff a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth yn ein prosesau penderfynu.' Fodd bynnag, o gofio'r amser ychwanegol y byddai hyn yn ei gymryd i'w roi ar waith a'r cymhlethdodau posibl o ran rhoi mynediad i bapurau'r Bwrdd, mae'r opsiwn hwn wedi ei atal ar hyn o bryd ond gallai gael ei archwilio ymhellach i'w defnyddio yn y dyfodol.

Gwerthuso

2.9 Gan mai diben y Bwrdd Cysgodol yw gwella'r amrywiaeth cyffredinol ar fforymau penderfynu, bydd y Bwrdd Cysgodol yn cael ei werthuso gan y Tîm Cydraddoldeb yn y Gweithle, yn dilyn cyngor gan KAS.

## 3. Goblygiadau adnoddau

Goblygiadau Ariannol

3.1 Nid oes goblygiadau ariannol ychwanegol yn codi o'r cynigion yn y papur hwn. Caiff yr hyfforddiant y cyfeirir ato ym mharagraff 2.7 ei gyflwyno'n fewnol.

Goblygiadau i'r staff

3.2 Mae goblygiadau cadarnhaol i'r staff gan y bydd pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yn elwa o'u cyfranogiad â'r

Bwrdd Cysgodol. Ni chafwyd ymgynghoriad ffurfiol ag undebau llafur ond gwnaethant gymryd rhan mewn trafodaethau cynharach fel aelodau o DISG.

## 4. Risgiau

4.1 Mae risg y gallai'r Bwrdd Cysgodol gael ei ystyried yn un symbolaidd felly bydd yn bwysig caniatáu amser ychwanegol yn y Bwrdd i ystyried sylwadau gan y Bwrdd Cysgodol. Bydd y Bwrdd Cysgodol yn awyddus i wybod beth sy'n digwydd o ganlyniad i'w mewnbwn. Mae angen i'r Cadeirydd a'r bobl eraill sy'n mynychu'r Bwrdd deimlo'n hyderus na fydd sgil-effeithiau o 'wynebu'r bobl mewn pŵer'. Mae risg y gallai unigolion deimlo nad oes ganddynt ddigon o sgiliau i rannu eu sylwadau (syndrom hunan-amheuwr) felly bydd angen hyfforddiant a chymorth/mentora parhaus gan aelodau'r Bwrdd i fagu hyder. Mae risg y gallai'r Bwrdd Cysgodol gael ei ystyried yn nod ynddo'i hun ond ei fwriad yw bod yn beilot ar gyfer gwersi i'w dysgu i wella amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau. Felly, bydd yn bwysig bod y Bwrdd Cysgodol yn cael ei werthuso a bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn ystyried sut y caiff amrywiaeth pellach wrth wneud penderfyniadau ei gyflwyno. Yn olaf, mae sefydlu'r Bwrdd Cysgodol yn brosiect ynddo'i hun ac mae perygl y gallai'r amser sy'n cael ei dreulio ar hyn oedi gwaith arall ar y Cynllun Cyflawni o ystyried maint y Tîm Cydraddoldeb yn y Gweithle.

## 5. Cyfathrebu

5.1 Bydd erthygl fewnrwyd ar y Bwrdd Cysgodol yn cael ei phostio cyn y toriad a chaiff gwybodaeth ei rhannu gyda'r undebau a'r rhwydweithiau. Bydd prosesau recriwtio yn dechrau ym mis Medi.

## 6. Materion Cydymffurfiaeth Gyffredinol

6.1 Mae'r cynnig ar gyfer Bwrdd Cysgodol yn gam gweithredu yn y Cynllun Cyflawni sydd ei hun yn gweithredu rhwymedigaethau yn benodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond hefyd mewn perthynas â'n rhwymedigaethau i roi ystyriaeth ddyledus i gyfle cyfartal (Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

## Argymhellion

7.1 Gofynnir i'r Bwrdd ystyried yr agweddau canlynol ar y Bwrdd Cysgodol:

- Dull recriwtio (paragraff 2.1)
- Ymrwymiad amser (paragraff 2.2)
- Aelodaeth arfaethedig (paragraff 2.3)
- Bydd Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd yn Ysgrifenyddiaeth i'r Bwrdd Cysgodol hefyd.
- Rhoi amser yng nghyfarfodydd y Bwrdd i ystyried sylwadau'r Bwrdd Cysgodol ar bob eitem.

- Gwerthusiad er mwyn dysgu gwersi ar gyfer fforymau gwneud penderfyniadau eraill.

**Cyhoeddi**

Dylid cyhoeddi'r papur hwn yn ei gyfanrwydd gan nad oes yr un eithriad yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gymwys.